

Tasg Arbennig

Llysgenhadon

Cymunedol

Haf

2019



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Tasg Arbenning Mai 2019

3 brif swydd Llysgenhadon Cymunedol yw:

1. Dweud wrth eraill am hawliau plant;
2. Dweud wrth eraill am Sally a Thîm y Comisiynydd Plant;
3. Bod yn llais ar lawr gwlad i'r Comisiynydd Plant a bwydo i'w gwaith trwy dasgau tymhorol a gweithdai

Tasg Arbenning y term yma yw:

1. Defnyddio eich pecyn Adnoddau Llysgenhadon Cymunedol newydd
2. Dewis 2 neu 3 weithgaredd o'r pecyn Adnoddau Llysgenhadol Cymunedol a'u gwneud gyda grŵp o bobl ifanc (gall hyn fod o fewn eich grŵp cymunedol chi neu un gwahanol). Gall y gweithgareddau yma ddangos i chi pa hawliau nad yw pobl ifanc yn eu derbyn yn eich cymuned chi.
3. Dweud wrth rywun pwerus yn eich cymuned am yr hyn yr ydych wedi ei ddarganfod drwy'r gweithgareddau. Gall y person yma fod yn unrhyw un yr ydych chi'n credu dylai wrando arnoch. (Er enghraifft, os nad ydych yn teimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw gallwch wahodd eich Heddwes Cymunedol i ddod i'ch ymweld) Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn Adnodd 1.
4. Adrodd nŵl wrth Sally ym mha bynnag ffordd yr hoffech am sut y gwnaethoch gynnal y gweithgareddau o'r pecyn ac am eich profiad o ddweud wrth rywun pwerus. Gallwch wneud hyn drwy ddanfôn e-bost, fideo, galwad ffôn neu drwy ddanfôn neges ar Trydar. Mae ein manylion cyswllt a canllawiau creu fideos anhysbus i'w gweld ar dudalen olaf y pecyn.
5. Dewch i rannu eich profiadau gyda Sally a'r Panel Llysgenhadon Cymunedol: 10fed o Fedi yng Ngogledd Cymru a'r 16eg o Fedi yn Ne Cymru rhwng 17.00 — 19.00 (lleoliad i'w gadarnhau).

Adnodd 1: Pwy allai fy helpu?

PWY ALLAI FY HELPU?	PWY YDYN NHW?	SUT GALLA I GYSYLLTU Â NHW?
Cynghorydd Sir Lleol	Mae Cynghorydd Sir Lleol yn rhywun sy'n cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno yn eich Cyngor Sir. Gallai'r Cyngor Sir fod yn y dref neu'r ddinas fwyaf yn y sir.	Chwiliwch am 'Cysylltu â'm Cynghorydd Sir Lleol' <ul style="list-style-type: none"> • Dylai hyn eich arwain i wefan eich Cyngor Sir Lleol • Nodwch yr ardal lle rydych chi'n byw a dylai eich cynghorydd lleol a'u manylion ymddangos
Cynghorydd Cymunedol/Tref Lleol	Mae eich Cynghorydd Cymunedol/Tref yn cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno mewn cyngor llai a mwy lleol, mae'r rhain yn aml yn bobl y gallech chi eu nabod yn dda yn eich cymuned.	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am '(enw eich awdurdod lleol) Community councils' e.e. 'Neath Port Talbot Community Councils' neu 'Gwynedd Community Councils' • Ffeindiwch eich cyngor cymunedol yn y rhestr a nodwch ei fanylion cyswllt
AC Lleol (Aelod Cynulliad)	Mae AC yn rhywun sy'n cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno yng Nghynulliad Cymru yng Nghaerdydd.	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am 'Dod o hyd i'ch Aelod Cynulliad' • Nodwch eich etholaeth (os dydych chi ddim yn gwybod beth yw eich etholaeth, chwiliwch am hynny gyntaf) • Yna dylai proffil eich AC lleol ymddangos, ac yno cewch hyd i'r manylion cyswllt
AS Lleol (Aelod Seneddol/MP)	Mae AS yn rhywun sy'n cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am 'Find my local MP' • Nodwch eich cōd post/ardal

	byw yno yn y Senedd yn San Steffan, Llundain.	<ul style="list-style-type: none"> • Yna dylai enw eich AS lleol a'u manylion cyswllt ymddangos
Elusennau Lleol	Gallai'r rhain gynnwys canghennau o elusennau cenedlaethol neu rai lleol llai o faint a allai o bosib eich helpu i godi arian i newid neu ddatblygu pethau yn eich cymuned.	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am 'Elusennau yn fy ardal' neu 'Elusennau lleol' • Dylai amrywiaeth o elusennau ymddangos, canghennau o rai Cenedlaethol, yn ogystal ag elusennau lleol llai • Cewch hyd i'w manylion cyswllt ar eu gwefan • COFIWCH ddarllen am beth mae'r elusen yn ei wneud cyn cysylltu â nhw i sicrhau mai nhw yw'r sefydliad cywir i gysylltu â nhw
Grwpiau Cymunedol Lleol	Efallai bod grwpiau eraill fel eich un chi eisoes wedi datrys y problemau rydych chi'n eu hwynebu. Hefyd gallai fod grwpiau o oedolion y gallech chi weithio gyda nhw i weithredu'r newidiadau rydych chi am eu gwneud.	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am 'grwpiau cymunedol yn fy ardal' • Dylai hynny roi i chi amrywiaeth o grwpiau yn eich ardal chi • Cewch hyd i'w manylion cyswllt ar eu gwefannau neu ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol • COFIWCH ddarllen am beth mae'r grwpiau yma yn ei wneud cyn cysylltu â nhw i sicrhau eich bod chi'n cysylltu â'r grwpiau a'r bobl cywir
PCSO Lleol Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu	Mae PCSOs yn gweithio ar reng flaen eich heddlu lleol, gan ddarparu presenoldeb gweladwy, sy'n rhoi sicrwydd, ar y strydoedd, ond does ganddyn nhw ddim yr un pwerau â heddwision arferol.	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am 'Cysylltu â'm PCSO lleol' • Nodwch eich côd post yn y peiriant chwilio ar wefan eich heddlu lleol • Yna bydd manylion cyswllt y swyddog mae angen i chi gysylltu â nhw yn ymddangos

Manylion Cyswilt | Contact Details

Trydar | Twitter

Instagram

Awr Hawliau | Rights Hour

Ffôn | Phone

Ebost | Email

Facebook

Gwefan | Website

@complantcymru | **@childcomwales**

@childcomwales

Dydd Gwener | Friday 12- 1

01792 765600

post@childcomwales.org.uk | post@complantcymru.org.uk

<https://www.facebook.com/childcomwales/>

www.childcomwales.org.uk | www.complantcymru.org.uk

Canllawiau creu fideos anhysbys:

- Osgoi ffilmio wynebau plant — ceisiwch ond ffilmio eu dwylo ac ystumiau eraill
- Dim enwau i'w gweld na chlywed yn y fideo
- Gallwch guddio wynebau drwy roi rhywbeth o'i blaenau (er enghraifft llun neu boster)
- Gallwch ddefnyddio apiau fel 'Stop Motion' neu 'Cartoon Photo Editor' er mwyn cuddio wynebau



Llun: http://www.egino.cymru/resources/agenda_0319/primary_agenda_cy.pdf